Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

# Strategaeth Gyfalaf 10 Mlynedd Gorllewin Cymru

## Gorffennaf 2023



# Rhagair



**Judith Hardisty**
Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn tynnu partneriaid ynghyd o lywodraeth leol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Ein nod yw trawsnewid gwasanaethau gofal a chymorth yng Ngorllewin Cymru. Mae ein rhanbarth yn cwmpasu ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol lunio cynllun cyfalaf strategol a fydd yn cyflwyno golwg 10 mlynedd ar ein hanghenion buddsoddi cyfalaf yn ein hardal. Hwn fydd ein Cynllun Cyfalaf Strategol cyntaf.

Yn 2022 cyhoeddom ein hail Asesiad o'r Boblogaeth a'n Hadroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf ar gyfer Gorllewin Cymru. Mae'r asesiadau pwysig hyn yn ein helpu i ddeall anghenion ein poblogaeth yn y dyfodol a gallu ein gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae sut byddwn yn ymateb gyda'n gilydd i'r heriau hyn wedi'i nodi yn ein Cynllun Ardal sy'n cynnwys ein blaenoriaethau strategol.

Rhan o'n gweledigaeth fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw helpu pobl i aros yn agosach i gartref ac i dderbyn gofal a chymorth yn eu cymunedau. Yn allweddol i hynny mae'r angen am gyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol modern, addas i'r 21ain ganrif.

Rydym wedi gwneud cynnydd gwych yn y blynyddoedd diwethaf gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru yn 2022-2023 o'r Gronfa Tai gyda Gofal (HCF) a'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal (IRCF) i ddatblygu tai gyda chymorth a hybiau iechyd a gofal cymunedol integredig.

Bydd y strategaeth hon yn ein helpu i adeiladu ar hyn a bodloni'r gofynion fydd arnom yn y dyfodol drwy nodi dull cydlynol a rhagweithiol o ddatblygu cynlluniau buddsoddi cyfalaf. Bydd hyn yn cynnwys gwell dealltwriaeth o benderfynyddion ehangach iechyd a llesiant, a sut gall portffolios presennol fel tai ag iechyd, creu lleoedd ac adfywio economaidd gyfrannu at lesiant unigolion.

Bydd y strategaeth yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i ni yn cael yr effaith fwyaf bosibl, ac yn biler hanfodol o ran darparu ein gweledigaeth o iechyd a gofal integredig yn ein cymunedau ar draws y rhanbarth.

Nawr yw'r amser i ddod â'r strategaeth yn fyw, ac edrychaf ymlaen at weld cynllun y rhaglen gyfalaf a phrosiectau allweddol yn datblygu wrth i ni symud ymlaen.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council · Cyngor Sir Ceredigion County Council · Pembrokeshire County Council Cyngor Sir Penfro · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board · CGGSG ~ CAVS · CAVO · PAVS

# Cynnwys

**Rhagair** ..... 2

Crynodeb Gweithredol ..... 4

Adran 1: Y Cyd-destun a'r Weledigaeth Strategol ..... 5

1.1 Gweledigaeth ac Egwyddorion Cyfalaf Strategol ..... 5

1.2 Alinio ag uchelgeisiau cenedlaethol a rhanbarthol ..... 5

1.3 Cyfleoedd Datblygu Allweddol ..... 8

Adran 2: Datblygu'r Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd ..... 11

2.1 Ein partneriaid allweddol. ..... 11

2.2 Y dull o ddatblygu'r cynllun. ..... 11

2.3 Dadansoddi Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) ..... 12

2.4 Gwaith pellach ar y cynllun ..... 12

2.5 Cynllun Cyflawni'r Rhaglen ..... 12

Adran 3: Seilwaith Cyfalaf Cyfredol ..... 13

3.1 Cyd-destun Strategol ..... 13

3.2 Ein seilwaith ac asedau ..... 14

3.3 Canlyniadau ein hasesiad – Negeseuon Allweddol ..... 15

3.4 Gweithgaredd Ychwanegol ..... 15

Adran 4: Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Buddsoddi ..... 16

4.1 Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Buddsoddi ..... 16

4.2 Nodi a Blaenoriaethu Prosiectau Cyfalaf. ..... 16

Adran 5: Llywodraethu a Chyflawni'r Rhaglen ..... 17

5.1 Strwythur Llywodraethu a'r Broses Flaenoriaethu ..... 17

5.2 Cytundeb Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru 2023. ..... 17

5.3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ..... 18

5.4 Trefniadau darparu ..... 18

5.5. Rheoli Buddion ..... 18

5.6 Risgiau a lliniaru allweddol ..... 20

Atodiad 1: Cytundeb Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru 2023 ..... 21

Atodiad 2: Cysylltiadau â'r chwe model gofal cenedlaethol ..... 23

Atodiad 3: Dadansoddiad SWOT ..... 25

Atodiad 4: Offeryn Mapio Asedau Gorllewin Cymru (cipluniau) ..... 28

Atodiad 5: Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Buddsoddi ..... 29

Atodiad 6: Offeryn Datblygu Achos Busnes ..... 37

Atodiad 7: Ymagwedd Blaenoriaethu Rhaglenni a Phrosiectau Cyfalaf ..... 38

Atodiad 8: Portffolio Prosiectau Cyfalaf ..... 40

# Crynodeb Gweithredol

Mae dyfodiad ffrydiau cyllido newydd, gan gynnwys y Gronfa Ofal Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF) a'r Gronfa Tai â Gofal (HCF), yn darparu ffocws ar gyfer cyfeirio cynllunio, llywodraethu ac adnoddau i brosesau cynllunio rhanbarthol integredig. Bydd hyn yn sicrhau defnydd effeithiol o gronfeydd cyfalaf i ddatblygu prosiectau allweddol o fewn rhaglen gyfalaf ranbarthol a lywodraethir trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Mae'r rhaglenni ariannu hyn yn arbennig o arwyddocaol yng Ngorllewin Cymru o ystyried y cyd-destun strategol eang a ategir gan y Strategaeth Iechyd a Gofal ranbarthol, "Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach." Mae cyflawni'r strategaeth hon yn seiliedig ar fuddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn seilwaith cymunedol fel canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ategu'r blaenoriaethau presennol sy'n deillio o'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a Chynlluniau Ardal a all elwa o fuddsoddiad cyfalaf.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (WWRPB) wedi cyd-gynhyrchu gweledigaeth, egwyddorion a "chytundeb" a fydd yn allweddol i ddarparu dealltwriaeth gyffredin rhwng partneriaid o sut bydd llywodraethu rhanbarthol yn cefnogi blaenoriaethu cynlluniau cyfalaf dros oes y strategaeth. Nod y broses a amlinellir yw ychwanegu gwerth ac allbwn gwahanol i adeiladu ar y bwriad strategol gan bob un o'r sefydliadau partner. Mae'r offeryn datblygu achosion busnes yn elfen greiddiol o'r broses hon a bydd yn cefnogi sefydliadau arweiniol i gyflymu mentrau i bwynt lle gellir eu cynnwys fel gweithgareddau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Yn hanfodol, bydd y broses newydd hon yn cael ei chefnogi gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni Cyfalaf (PMO) yn nhîm WWRPB.

Er ei bod yn ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lunio strategaeth gyfalaf, mae'n bwysig adeiladu ar y modd y cyflawnir y strategaeth er mwyn meithrin perthnasoedd ac ymgysylltu'n effeithiol ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod risg y gallai ymagwedd ranbarthol at fuddsoddi cyfalaf gael ei hystyried yn broses ychwanegol ddiangen, ar ben y canfyddiad fod llawer o amser yn mynd i gyflwyno, craffu a chymeradwyo prosiectau cyfalaf.

I'r perwyl hwn, llunnir Cynllun Cyflawni Rhaglenni (PDP) i ehangu ar y themâu llywodraethu allweddol ac i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei arddel i gyflawni'r rhaglen gyfalaf. Bydd yn cynnwys manylion am y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y rhaglen gyfalaf sy'n cynnwys:

- Defnyddio cyllid ac adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflymu datblygiad cynlluniau cyfalaf
- Meithrin gwybodaeth, sgiliau a phrofiad am brosiectau cyfalaf ar draws y rhanbarth
- Sefydlu cyfres o gynlluniau drwy gydol y strategaeth
- Sefydlu rolau a chyfrifoldebau allweddol o fewn y rhaglen gyfalaf, er mwyn sicrhau bod y llywodraethiant yn sicrhau'r ffordd orau o gyflawni'r strategaeth hon

# Adran 1: Y Cyd-destun a'r Weledigaeth Strategol

## 1.1 Gweledigaeth ac Egwyddorion Cyfalaf Strategol

Mae'r Weledigaeth Gyfalaf Strategol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn disgrifio'r gwasanaethau iechyd a gofal ar draws y rhanbarth yn y dyfodol, wedi'u trefnu o amgylch y chwe model gofal cenedlaethol, ac yn canolbwyntio ar well iechyd a llesiant i bobl leol.

| |
|---|
| ***Gwasanaethau ac asedau modern, hygyrch a chynaliadwy sy'n cefnogi trigolion Gorllewin Cymru.*** |

*Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar y cyd, nodwyd set gyffredin o egwyddorion allweddol gan gyfranogwyr yng ngweithdy Cynllun Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022, y bydd rhaglenni a chynlluniau cyfalaf yn eu mabwysiadu:*

- *Gwelliannau i lesiant y boblogaeth*
- *Mynd i'r afael â'r cynnydd ym mhoblogaeth y rhanbarth sy'n heneiddio*
- *Darparu parhad i'n poblogaethau bregus*
- *Cynyddu'r dewis a'r argaeledd o ran llety arbenigol*
- *Cefnogi cyflawni'r gwasanaethau'n hwylus*
- *Gwella ansawdd adeiladu*
- *Cefnogi atebion digidol*
- *Dangos gwerth am arian*
- *Gostyngiad mewn costau refeniw*
- *Gostyngiad mewn ôl troed carbon*
- *Cynaliadwyedd*
- *Hygyrchedd*
- *Ymagwedd o gyd-gynhyrchu*

Yn eu hanfod, mae’r egwyddorion a glustnodwyd yn cael eu hategu gan yr angen i gefnogi modelau newydd o ofal ataliol, sef y rheswm dros sefydlu’r HCF a’r IRCF yn ddiweddar.

Mae'r Strategaeth hon a'r PDP cysylltiedig yn amlinellu cyfeiriad strategol Strategaeth Gyfalaf 10 Mlynedd i Orllewin Cymru a'r modd caiff ei rheoli. Caiff ei gwella trwy ddatblygu "cytundeb" rhanbarthol sy'n anelu at ddarparu fframwaith cyffredin o ddealltwriaeth ar draws y rhanbarth i'r holl bartneriaid o ran sut y bwriedir cyflawni'r strategaeth gyfalaf 10 mlynedd. Ymhelaethir ar hyn yn Atodiad 1.

## 1.2 Alinio ag uchelgeisiau cenedlaethol a rhanbarthol

**Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach – Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda**

Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer y rhanbarth "Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda", dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn amlinellu gweledigaeth i'r dyfodol ac uchelgeisiau cyffredin sefydliadau partner, i

ganolbwyntio ar iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gydnabod cyfraniad cymunedau cryf a gwydn.

Mae'r strategaeth yn amlinellu model cymunedol yn y dyfodol sy'n cael ei ategu gan fodel cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant. Bydd y model hwn yn cael ei alluogi gan fuddsoddiad mewn seilwaith cyfalaf ac mae'n cyd-fynd ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu hybiau iechyd a gofal cymdeithasol, a fydd yng Ngorllewin Cymru yn cefnogi datblygu ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd rhwng Hendy-gwyn ar Daf a Sanclêr.

Yn 2022, lansiodd WWRPB ei Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ( MSR 2022 ) sy'n disgrifio digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad gofal i ddiwallu anghenion iechyd a gofal pobl leol ar draws y rhanbarth. Mae hon yn ddogfen gyfeirio allweddol - wedi'i llywio gan yr Asesiad Anghenion Poblogaeth rhanbarthol ( PNA 2022 ) ac adroddiadau LIN Tai ar gyfer Pobl Hŷn ac ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl ) i gefnogi datblygiad blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd (2023-33) a'r Cynllun Ardal (2023-28).

Mae datblygu blaenoriaethau cyfalaf rhanbarthol hefyd yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol. Mae’r rhain fel a ganlyn.

- **Cronfa Ofal Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol** - Canllawiau IRCF 2022
  - **Blaenoriaeth 1:** Darparu Canolfannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig
  - **Blaenoriaeth 2:** Ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol preswyl i oedolion
  - **Blaenoriaeth 3:** Dileu elw o'r ddarpariaeth gofal preswyl i blant.

- **Cronfa Tai â Gofal** - HCF 2022
  - **Amcan 1:** Y boblogaeth sy'n heneiddio  Helpu'r boblogaeth sy'n heneiddio i barhau i fyw'n annibynnol gyda gofal a chymorth gartref.
  - **Amcan 2:** Gofal yn nes i gartref. Sicrhau bod anghenion llety a gofal grwpiau hynod agored i niwed nad ydynt yn gallu byw'n gwbl annibynnol yn cael eu diwallu mor agos i gartref â phosibl.
  - **Amcan 3:** Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol canolradd yn y gymuned Sicrhau bod cyfleusterau digonol i ddarparu camu i fyny/camu i lawr, ailalluogi ac adsefydlu yn y gymuned.

Mae'r cyfraniad tai i'r agenda integreiddio rhanbarthol trawslywodraethol wedi'i ategu gan Gymru Iachach a'r ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu i gefnogi datblygiadau tai arloesol er mwyn diwallu anghenion gofal ac ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos â phosibl i gartref ac yng Nghymru lle bynnag y bo'n ymarferol.

Bydd ymddangosiad yr HCF a'r IRCF newydd yn ychwanegu gwerth sylweddol at y portffolio presennol o ddatblygiadau cyfalaf gan sicrhau bod themâu eraill o bwysigrwydd strategol yn cael eu hintegreiddio o fewn cynllunio strategol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Canol y dref yn gyntaf
- Datgarboneiddio
- Dyluniad bioffilig
- Model Gofal Sylfaenol i Gymru
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Dechrau'n Deg
- Rhaglenni Trawsnewid Blynyddoedd Cynnar

Mae'n bwysig nodi, er bod yr arian yn benodol yn galw am atebion iechyd, canolfannau gymdeithasol, a llety, bydd y strategaeth hon hefyd yn cefnogi ymrwymiadau polisi eraill o fewn y Rhaglen Lywodraethu.

- **Modelau gofal cenedlaethol** (gweler tudalennau 16-20 RIF Guidance 2022 ac Atodiad 2 am fanylion y rhaglen)
    - Gofal yn y gymuned – cydlynu atal a chymuned.
    - Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn agosach i gartref.
    - Hyrwyddo iechyd emosiynol a llesiant da.
    - Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal.
    - Gwasanaeth gartref o'r ysbyty.
    - Atebion seiliedig ar lety.
- **Blaenoriaethau Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2023 Drafft**

Yn ogystal â bodloni gofynion polisi Llywodraeth Cymru, mae Cynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru 2023-2028 yn canolbwyntio ar feysydd cydweithredu ac integreiddio ar draws y rhanbarth sy'n ychwanegu gwerth ac yn ategu yn hytrach na dyblygu cynlluniau rhanbarthol manwl eraill megis Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cynlluniau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a Chynlluniau Busnes Blynyddol Awdurdodau Lleol.

Mae'r pum blaenoriaeth lefel uchel yn cyd-fynd yn agos â dyheadau'r Cynllun Cyfalaf Strategol fel a ganlyn:

- Cefnogi pobl i reoli eu llesiant eu hunain.
- Cefnogi pobl i aros yn agosach i gartref.
- Sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i ateb y galw.
- Meddu ar weithlu sefydlog a chadarn.
- Cynllunio a darparu ein gwasanaethau gyda phobl sy'n eu defnyddio.

Bydd y Cynllun Ardal 2023-2028 cymeradwy yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.


Mae partneriaid eraill yn y rhanbarth hefyd wedi llunio cynlluniau / strategaethau blynyddol, sy'n cefnogi'r aliniad i'r polisi a'r cyd-destun strategol ehangach fel y nodir uchod. Mae rhesymoli ystadau a datblygu canolfannau gweithio ystwyth/hybrid yn nodwedd gyffredin yn ogystal ag elfennau eraill sy'n gysylltiedig â seilwaith.

## 1.3 Cyfleoedd Datblygu Allweddol

Mae canllawiau IRCF wedi amlinellu'r dyhead i ddatblygu "glasbrint" ar gyfer canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a gweithio gyda'r Gymuned Ymarfer Gofal yn y Gymuned, i sicrhau bod ymagwedd gyson at integreiddio gwasanaethau a bod y cyfleusterau hyn yn gallu darparu gofal a chymorth yn ddi-dor.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn dda â'r "model cymunedol yn y dyfodol" fel yr amlinellir yn "Strategaeth Gofal Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach" sy'n disgrifio'r dirwedd iechyd a gofal cymunedol presennol fel un gymhleth, amrywiol, gor-feddygol, a bregus.

Mae'r model cymunedol yn y dyfodol yn rhoi pwyslais ar rôl seilwaith i alluogi pob ardal leol i ddatblygu, sy'n seiliedig ar gymunedau cryf gwydn. Bydd pob ardal yn cael ei chefnogi drwy ddatblygu rhwydwaith cymunedol integredig. Bydd y rhwydweithiau hyn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a byddant yn cwmpasu'r sbectrwm cyfan gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu.




Bydd pob rhwydwaith cymunedol integredig yn cael ei gefnogi gan **un neu fwy o ganolfannau iechyd a llesiant neu hwb cymunedol.** Bydd hyn yn dod â phobl a gwasanaethau ynghyd mewn un lle ac yn darparu'r cysylltiadau rhithwir rhwng poblogaethau lleol a'r rhwydwaith cymunedol.

Mae'r glasbrint ar gyfer hybiau cymunedol yn rhoi cyfle perffaith i ddiffinio pob cynllun cymunedol o fewn y strategaeth a chanolbwyntio ar anghenion poblogaeth leol, yn ogystal â gwerth ychwanegol arddel egwyddorion y strategaeth gyfalaf ranbarthol hon.

Bydd rheoli rhaglenni'n llwyddiannus yn allweddol, gan fod amrywiaeth o gysylltiadau a dibyniaethau i weithio ar draws y system gyfan fel rhan o'r trawsnewidiad ehangach.

## Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad

Nododd yr adroddiad y cyfleoedd datblygu allweddol canlynol i fynd i'r afael â sefydlogrwydd a digonolrwydd y farchnad ledled y rhanbarth i ddiwallu angen cyfredol ac arfaethedig. Mae'r argymhellion hyn yn cyfeirio at gyfleoedd datblygu cyfalaf a buddsoddi, yn ogystal â'r cyfleoedd a gynigir drwy ddatblygu ysbyty acíwt newydd ar ffin Sir Gaerfyrddin

a Sir Benfro, a ategir gan ystod gynhwysfawr o ddatblygiadau hwb cymunedol a wnaed yn bosibl gan argaeledd IRCF.

| **Gwasanaethau ail-ddarparu** |
| --- |
| *Anogir Awdurdodau Lleol a darparwyr preifat i ystyried opsiynau i ail-ddarparu gwasanaethau presennol i mewn i fodelau gofal eraill mewn ymateb i gyfleoedd yn y farchnad neu wrth wynebu'r posibilrwydd o golli lleoliadau. Tynnwyd sylw'n benodol at yr opsiwn i ail-ddarparu cartrefi gofal yn dai arbenigol fel dull ymarferol o ymateb i'r galw a ragwelir am dai arbenigol ar draws y rhanbarth, o fewn model busnes sy'n fwy addas ar gyfer cadw a recriwtio staff.* |

| **Gwasanaethau aildrefnu** |
| --- |
| *Mae enghreifftiau wedi'u nodi lle gellir aildrefnu ac ehangu modelau gwasanaeth presennol yn segmentau marchnad gwahanol neu ffyrdd o ddarparu gwasanaethau a chymorth. Maent yn cynnwys datblygu modelau "prif ganolfan a lloerennau" sy'n cyfuno gofal preswyl â gwasanaethau cymunedol, gan helpu unigolion i aros yn annibynnol yn eu cartrefi ond gyda'r opsiynau o gymorth preswyl. Gallai dulliau o'r fath gynnig mwy o hyblygrwydd i staff, a allai hybu lefelau recriwtio a chadw staff.* |

| **Ailgydbwyso'r farchnad** |
| --- |
| *Yn unol â gofynion statudol sy'n ymwneud â pharhad busnes, rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr presennol i ddod o hyd i atebion os ydynt mewn trafferth a bod yn ddarparwr dewis olaf os oes rhywun yn gadael y farchnad. Mae'r angen am achosion busnes cadarn yn allweddol i unrhyw ymyrraeth â'r farchnad ochr yn ochr ag ystyriaeth glir i sicrhau parhad gofal. Bydd cael capasiti mewnol (ac felly gallu) hefyd yn golygu bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa well i gefnogi darparwyr sy'n profi anawsterau a rheoli trosglwyddiadau posibl o ddarpariaeth breifat i ddarpariaeth gyhoeddus.*<br><br>*Yn ogystal, mae angen i'r rhanbarth ymateb i'r cyfeiriad polisi cenedlaethol o gael gwared ar yr elfen elw o'r gwasanaethau gofal preswyl plant.* |

| **Gwella comisiynu rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau arbenigol.** |
| --- |
| *Cydnabyddir, o dan y trefniadau presennol y byddai sawl maes gwasanaeth (yn enwedig gwasanaethau arbenigol i oedolion a phlant) yn elwa ar ymagwedd ranbarthol mwy cydgysylltiedig at gomisiynu ac ariannu.* |

| **Datblygu gwasanaethau newydd** |
|---|
| *Ystyrir nad yw amodau presennol y farchnad yn ffafriol i fuddsoddiad newydd gan y sector preifat. Yr adborth gan ddarparwyr yw bod pryderon am bwysau ar y gweithlu a lefelau incwm, yn ogystal â manyleb uwch ar gyfer adeiladau newydd, yn cyfyngu ar gyfleoedd i ehangu'r farchnad a buddsoddi - a nodir bod llawer o'r darparwyr sy'n gweithredu yn y rhanbarth yn Fusnesau Bach a Chanolig sydd â mynediad cyfyngedig at gyfalaf buddsoddi a chapasiti mewnol ar gyfer gwaith prosiect datblygiadol.*<br><br>*Fodd bynnag, dengys gwaith dadansoddi bod ychydig o dwf diweddar yn y farchnad, er enghraifft mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld twf yn nifer y darparwyr gofal cartref a reoleiddir yn y 3 blynedd diwethaf (i fyny o 23 yn 2018 i 32 yn 2020), ac mae nifer o ddatblygiadau gofal ychwanegol newydd wedi cael eu codi'n ddiweddar yn Sir Benfro a Cheredigion ar gyfer pobl hŷn yn ogystal ag oedolion o oedran gweithio.*<br><br>*Mae gan gynghorau sir ran allweddol o ran cefnogi'r amodau ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r farchnad (ac ehangu darparwyr presennol) i ddatblygu gwasanaethau gofal a chymorth newydd. Mae adborth gan arweinwyr a chomisiynwyr y system yn nodi ystod o opsiynau gan gynnwys;*<br><br>● *Awdurdodau Lleol perthnasol yn ystyried sut i ddefnyddio eu Cyfrif Refeniw Tai i gefnogi datblygiad unedau Byw â Chymorth a Gofal Ychwanegol (fel y nodwyd yn yr adroddiad LIN Tai).*<br>● *Rhyddhau banciau tir i'w datblygu (er enghraifft, mae Ceredigion wedi rhyddhau tir yng ngogledd y sir yn ddiweddar i weithio mewn partneriaeth â darparwr annibynnol i ddatblygu Cartref Gofal EMI Preswyl newydd).*<br>● *Cyngor a chymorth am gynllunio defnydd tir a rheoli prosiectau. Gall cynghorau sir gynnig mynediad i arbenigedd am reoli prosiectau mewnol, yn enwedig i ddarparwyr bychain, sy'n dominyddu'r farchnad ofal ar draws y rhanbarth ac sydd efallai heb ddigon o gapasiti mewnol.*<br>*Gallai Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) gael eu hadolygu i chwilio am gyfleoedd i gefnogi datblygiad gwasanaethau gofal a chymorth newydd - gan gynnwys darparu unedau tai arbenigol.* |

# Adran 2: Datblygu'r Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd

## 2.1 Ein partneriaid allweddol.

Ar hyn o bryd mae aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn cynnwys dau ddefnyddiwr gwasanaeth ac un gofalwr o wahanol rannau o'r rhanbarth ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi yn ein trafodaethau ac wrth i ni wneud penderfyniadau. Mae'r flaenoriaeth hon yn ymestyn i waith Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru (WWSCB) a Grŵp Cyfalaf Gweithredol Gorllewin Cymru (WWOCG), y mae eu haelodaeth ar hyn o bryd yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o;

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Penfro

Y bwriad yw ehangu aelodaeth WWSCB a'r WWOCG i gynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau canlynol. Bydd y dull yn cael ei ddatblygu wrth nodi a blaenoriaethu prosiectau cyfalaf posibl.

- Cymdeithasau Tai
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Darparwyr Gofal Annibynnol
- Cynrychiolwyr Defnyddwyr
- Cynghorau Gwirfoddol Sirol

## 2.2 Y dull o ddatblygu'r cynllun.

Mae'r cynllun hwn wedi'i lunio ar y cyd a'i arwain gan aelodau Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru (WWSCB) a Grŵp Cyfalaf Gweithredol Gorllewin Cymru (WWOCG). Mae'r dull wedi defnyddio arbenigedd a phrofiad partneriaid mewn rheoli prosiectau / rhaglenni cyfalaf, comisiynu strategol, ac arweinyddiaeth systemau ochr yn ochr â dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dadansoddi gwybodaeth am y farchnad yn fanwl, defnyddio asedau cyfalaf ar draws y rhanbarth, enghreifftiau o arfer da ac amcanestyniadau o angen a chyflenwad.

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â datblygu Cynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2023-28, gan alinio gweithgareddau cynllunio cyfalaf a refeniw fel eu bod yn ategu ei gilydd. Mae hyn yn gyson â chanllawiau Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Llywodraeth Cymru 2022.

I gefnogi'r dull hwn, bu i WWSCB benodi'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), Prifysgol Oxford Brookes i gynnal cyfres o weithdai (Tachwedd 2022, Chwefror 2023 a Mawrth 2023) a gweithgareddau datblygu i helpu i bennu blaenoriaethau cyfalaf a ffyrdd o weithio. Roedd y gweithdai yn cynnwys holl aelodau'r WWSCB yn ogystal ag arweinwyr cyfalaf rhanbarthol.

## 2.3 Dadansoddi Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT)

Cwblhaodd y WWSCB ddadansoddiad SWOT ym mis Tachwedd 2022 o ran yr heriau a'r cyfleoedd wrth ddatblygu a chyflwyno cynllun cyfalaf strategol 10 mlynedd. Mae'r SWOT hwn wedi'i nodi yn Atodiad 3.

Mae arsylwi allweddol yn cynnwys, er bod diwylliant o gydweithio'n datblygu ar draws y gwahanol bartneriaid, gan gynnwys ymdeimlad o ymddiriedaeth a dulliau arweinyddiaeth cryf, fod hyn wedi'i gyfyngu gan ddiffyg gallu pwrpasol i gyflawni, gwerthuso a chefnogi gweithgarwch strategol ochr yn ochr â thensiynau (hanesyddol) wrth gydbwyso'r gwahanol flaenoriaethau lleol gan gynnwys sut mae gwasanaethau'n cael eu defnyddio mewn ardaloedd mwy gwledig o gymharu â lleoliadau trefol.

O ran symud ymlaen, mae'r WWSCB yn cydnabod ei fod yn adeiladu ar ddiwylliant o gydweithio a bod y cyfle i ailosod y Cynllun Strategol yn caniatáu dull mwy strategol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac arloesedd yn hytrach na defnyddio dull mwy adweithiol a gwasgaredig ar gyfer cyfleoedd cyllido cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull diwygiedig o adleoli asedau cyfalaf presennol, archwilio mabwysiadu technoleg ddigidol yn ehangach, a symud y tu hwnt i bartneriaid traddodiadol.  Bydd angen i ddull strategol mwy rhagweithiol hefyd ymateb i effeithiau a chanlyniadau posibl y pandemig a'r argyfwng costau byw, yn cynnwys galw a phwysau cynyddol ar ddarparwyr a chontractwyr allanol, yn ogystal â gofynion llymach yn ymwneud â rheoliadau datgarboneiddio a ffosffadau.

## 2.4 Gwaith pellach ar y cynllun

Mae'r camau cynnar yn natblygiad y Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd hwn wedi canolbwyntio ar gasglu a dadansoddi data a gwybodaeth gan adlewyrchu gallu nawr ac yn y dyfodol i ddiwallu anghenion iechyd a llesiant pobl leol dros y 10 mlynedd nesaf.  Mae'r broses hon hyd yma wedi cynnwys mapio asedau'n gynhwysfawr ynghyd ag adolygu dogfennau presennol sy'n manylu ar y galw a'r cyflenwad a chyfres o weithdai gyda WWSCB i bennu amcanion allweddol, cytuno ar ffyrdd o weithio, a chychwyn blaenoriaethu prosiectau / rhaglenni cyfalaf rhanbarthol sydd i'w cyflwyno ar gyfer Cyllid y Llywodraeth a'u hariannu'n gyfatebol gan bartneriaid rhanbarthol.

Y cam nesaf wrth ddatblygu Strategaeth Gyfalaf 10 Mlynedd Gorllewin Cymru yw cwblhau'r gwaith o nodi a blaenoriaethu prosiectau a rhaglenni cyfalaf rhanbarthol, gan gynnwys mapio asedau cyfalaf ymhellach a datblygu achosion busnes i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â chytuno ar gytundebau arian cyfatebol.

## 2.5  Cynllun Cyflawni'r Rhaglen

Mae'r strategaeth yn adlewyrchu anaeddfedrwydd cymharol y gwaith hwn o fewn cyfnod o 10 mlynedd. Bydd y strategaeth yn cael ei diweddaru'n flynyddol yn ogystal â chynhyrchu PDP i ddarparu rheolaeth a sicrwydd i'r rhaglen fod gwahanol agweddau ar y rhaglen gyfalaf ranbarthol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys llywodraethu (ac nid yn gyfyngedig i)

- Offeryn datblygu a blaenoriaethu Achos Busnes
- Coflen prosiectau

- Rhaglen prosiectau cyfalaf - dogfen fyw
- Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Fframwaith rheoli budd-daliadau sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ehangach ar ganlyniadau RIF
- Rheoli cysylltiadau a dibyniaethau
- Rheoli risgiau a phroblemau
- Cynllunio adnoddau a rheoli tîm y rhaglen gyfalaf

Mae tîm Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru wedi datblygu gallu o amgylch y defnydd o *Power BI (PBI).* Cynigir bod hyn yn cael ei ddefnyddio lle bynnag y bo modd i gefnogi'r pwyntiau uchod.

Bydd yr IEG fel y grŵp sy'n noddi yn cael ei ddiweddaru'n gyson ynghylch cynnydd y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun cyflawni. Bydd rolau a chyfrifoldebau pob fforwm o fewn strwythur llywodraethu'r rhaglen yn cael eu hehangu yng nghynllun cyflawni'r rhaglen.

# Adran 3: Seilwaith Cyfalaf Cyfredol

## 3.1 Cyd-destun Strategol

Mae llawer o'r achos dros newid ar gyfer buddsoddi cyfalaf yng Ngorllewin Cymru wedi'i seilio ar broblemau sylweddol o ran perfformiad cyfredol yr ystad. Mae Achos Busnes Rhaglen Hywel Dda i alluogi Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2022, yn amlinellu heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â seilwaith presennol, gyda 40% o'r ystad dros 50 oed, ôl-groniad sylweddol o broblemau cynnal a chadw, a diffyg cydymffurfiaeth ag amgylcheddau gofal iechyd modern.

Mae adeiladau eraill yng Ngorllewin Cymru yn wynebu heriau tebyg, gyda'r holl bartneriaid yn y rhanbarth yn targedu cyfleoedd i wella cyflwr ffisegol cyfleusterau, gwella cydymffurfiaeth ag elfennau statudol iechyd, diogelwch a thân, yn ogystal â defnyddio gofod sy'n fwyfwy anaddas ar gyfer y galw gan wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio adeiladau o'r fath.

Mae'r cyd-destun strategol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith cyfalaf wedi'i gysylltu gan sawl agenda, y gellir ystyried bod pob un ohonynt yn dylanwadu ar unrhyw friff dylunio ar gyfer prosiect cyfalaf:

- **Gweithio ystwyth/hybrid –** tueddiad cynyddol i archwilio cydleoli hybiau gweithio ystwyth/hybrid ar y cyd fel rhan o gyfleusterau cymunedol ehangach ac i gefnogi gwasanaethau ac unigolion i weithio o unrhyw le. Dylai'r ystad fod yn fodern ac annog creadigrwydd ac arloesedd, gan rymuso staff.
- **Ffyrdd digidol o weithio** – Optimeiddio'r dechnoleg gall buddsoddiad cyfalaf ei chefnogi, gan gefnogi'r gallu i gael gafael ar wybodaeth a systemau o unrhyw le. Mae cyhoeddi'r Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2023) yn atgyfnerthu rôl galluedd digidol fel galluogwr allwedol i Gymru Iachach. Bydd technoleg yn galluogi ac yn cefnogi ein dinasyddion ledled Cymu i gael gofal yn nes at gartref ac i reoli eu hiechyd a'u gofal eu hunain yn well. Gall cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol modern gefnogi rhai o brif nodau'r strategaeth genedlaethol drwy sawl agwedd megis:
    - Rôl telefeddygaeth a monitro o bell mewn byw â chymorth a lleoliadau tai

- Cefnogi cynhwysiant digidol lle gall cyfleusterau cymunedol, yn enwedig mewn mannau gwledig, ddarparu gwell mynediad i wasanaethau
- Galluogi gweithlu digidol i ffynnu drwy ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i weithio mewn ffordd fwy hyblyg megis gweithio ystwyth / hybrid. Bydd hyn yn cefnogi rhagor o gydweithio i ddarparu mwy o ofal cyfannol a chefnogaeth i ddinasyddion.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau cyfalaf diweddar yn y rhanbarth yn dangos bod gallu digidol yn allweddol o ran cyflawni canlyniadau prosiectau.

- **Datgarboneiddio –** Mae datgarboneiddio'r sector cyhoeddus erbyn 2030 yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae'r GIG yn benodol wedi gosod targedau uchelgeisiol i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae perfformiad yr ystad o fewn cynllunio cyfalaf o'r pwys mwyaf. Mae'r strategaeth hon yn rhoi cyfle i oresgyn yr heriau sy'n gysylltiedig ag adeiladau hŷn, llai effeithlon.
- **Bioamrywiaeth –** Cyfeirir yn aml at yr agenda datgarboneiddio ochr yn ochr â chyfleoedd i hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae dylunio bioffilig wedi cael llawer o amlygrwydd ac yn esiampl y gwelir tipyn ohoni yng Nghanolfan Ganser Felindre. Gall strategaeth gyfalaf effeithiol gefnogi sawl agenda amgylcheddol.

Bydd y cyfleoedd hyn yn cael eu hystyried fel rhan o ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer y rhaglen gyfalaf wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

## 3.2 Ein seilwaith ac asedau

Mae ymarfer mapio cynhwysfawr wedi cael ei gynnal ar draws y rhanbarth i ddeall y seilwaith a'r asedau presennol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol. Gan adeiladu ar y gallu PBI uchod, datblygwyd hwn ar ffurf map rhyngweithiol y gellir ei gyrchu trwy'r ddolen isod.

https://app.powerbi.com/groups/0d299367-a79b-469d-b103-3a1909bc43a4/reports/01dbbc19-9048-47a4-ab4d-33b88eb0730f?ctid=319baa9a-8e8b-4d1e-86ae-f76a403f1c84&pbi_source=linkShare

Pwrpas y map fydd integreiddio'r seilwaith presennol ar draws y rhanbarth â'r prosiectau o fewn y rhaglen gyfalaf 10 mlynedd.

Y dyhead yw bydd y map yn dod yn gynrychiolaeth weledol o agweddau ar y "portffolio prosiectau cyfalaf byw", er mwyn dod â hyn yn fyw. Gallai hyn gynnwys manylion fel partneriaid cyflenwi, grwpiau cleientiaid, llinellau amser prosiect, costau ac ati. Bydd y map wedi'i integreiddio'n llawn ac yn ffurfweddadwy gan adeiladu ar set ddata gynhwysfawr yn y cefndir.

Y gobaith yw mai'r dull PBI fydd y cynnyrch craidd a ddefnyddir i reoli'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol, gan adeiladu ar y gallu a ddatblygwyd o fewn tîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Darperir cipluniau o'r map rhyngweithiol yn Atodiad 4 yn ychwanegol at yr hyperddolen a ddarperir uchod.

## 3.3 Canlyniadau ein hasesiad – Negeseuon Allweddol

Mae Achos Busnes Rhaglen Hywel Dda gwerth £1.3bn i ddarparu'r seilwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig â "Chanolbarth a Gorllewin Cymru Iachach" yn dangos yn glir gyfleoedd i gyflawni'r ymrwymiadau gweinidogol sy'n gysylltiedig â hybiau iechyd a gofal cymdeithasol, a chaiff ei gefnogi gan y blaenoriaethau IRCF.

Mae'r ceisiadau IRCF presennol a dderbyniwyd hyd yma ar gyfer hybiau iechyd a gofal cymdeithasol yn arwydd clir o gryfderau'r rhaglen gyfalaf a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd sydd hefyd yn cefnogi mentrau allweddol dan arweiniad yr Awdurdodau Lleol, sef Pentre Awel a Hwb Caerfyrddin.

Wrth i'r prosiectau hyn fynd rhagddynt, mae'n hanfodol sefydlu glasbrint i gefnogi pob math o hwb fel y disgrifiwyd, ac yn allweddol i'w llwyddiant mae cynllunio a throsglwyddo gwasanaethau wedi'u cydleoli yn lleoliadau cymunedol. Yn fygythiad i'r datblygiadau hyn y mae fforddiadwyedd refeniw parhaus trefniadau prydlesu ac agweddau eraill nad ydynt yn talu.

Edrychwyd ar atebion ehangach seiliedig ar lety fel rhan o'r adroddiadau LIN Tai, gydag asesiad o angen a galw wedi'u cynnwys yn y ddau asesiad ar gyfer llety i bobl hŷn, a'r rhai ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

Bu cryn dipyn o ddiffyg datblygiad o ran tai â gofal i'w rhentu a'u gwerthu yng Ngorllewin Cymru. Mae angen am bob deiliadaeth o dai â gofal, gan gynnwys datblygiadau deiliadaeth gymysg. Bydd angen modelau ecwiti a rennir ynghyd â modelau gwerthu'n llwyr, yn enwedig lle bo gan bobl hŷn ecwiti gymharol isel mewn eiddo presennol.

Mae blaenoriaethau cynnar ar gyfer buddsoddi fel y dangosir yn y tabl yn Adran 4, yn dangos nifer o ddatblygiadau byw â chymorth i gefnogi grwpiau poblogaeth ag anableddau dysgu a/neu iechyd meddwl. Mae'r goblygiadau i gomisiynwyr o'r adroddiadau LIN Tai i'w gweld yma

## 3.4 Gweithgaredd Ychwanegol

DS mae'r mapiau hyn yn clustnodi ar hyn o bryd.

- Asedau cyfalaf yr ALl (cartrefi gofal preswyl mewnol, canolfannau dydd, canolfannau cymunedol)
- Asedau cyfalaf y Bwrdd Iechyd (gwasanaethau cymunedol y GIG, gofal canolradd)

Bwriedir gwneud gwaith pellach i ymestyn yr ystod o asedau sy'n cael eu mapio i gynnwys y canlynol yn ogystal â mapio lefelau gweithgarwch i helpu i bennu cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw.

- Sector Annibynnol (cartrefi gofal preswyl a nyrsio, gofal ychwanegol, allgymorth cymunedol)
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chymdeithasau Tai (gofal ychwanegol, byw â chymorth, tai arbenigol ....)

# Adran 4: Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Buddsoddi

## 4.1 Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Buddsoddi

Mae nifer o flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi wedi'u clustnodi sydd ar y gweill neu'n cael eu datblygu. Mae tabl yn Atodiad 5 sy'n cynnwys dyheadau lefel uchel ar gyfer cynlluniau sydd o raddfa sylweddol fel y nodwyd o'r ymarfer mapio, y gellid eu hariannu drwy IRCF neu HCF.


## 4.2 Nodi a Blaenoriaethu Prosiectau Cyfalaf.

Fel rhan o'r gwaith datblygu ar Gynllun Ardal Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru 2023-28, bu i'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ddylunio a chyd-gynhyrchu offeryn blaenoriaethu ar gyfer prosiectau rhanbarthol.  Mae'r offeryn yn manylu ar amcanion y prosiect ac yn mesur maint y manteision strategol addas, manteision ariannol arfaethedig, a'r manteision ehangach. Mae'r rhain wedi'u pwysoli'n annibynnol i greu sgôr gyffredinol sy'n caniatáu cymharu clir o ran blaenoriaeth ar draws yr holl brosiectau rhanbarthol arfaethedig (mae sgôr uwch yn cynyddu lefel y flaenoriaeth).

Bydd yr offeryn yn cael ei addasu i nodi a blaenoriaethu prosiectau cyfalaf, er mwyn:

- Sefydlu cysyniad amlinellol o syniadau prosiect cyfalaf (wedi'i addasu o'r daflen manylion hanfodol).
- Blaenoriaethu prosiectau cyfalaf posibl yn benodol a sicrhau cysondeb â phrosiectau refeniw perthnasol.
- Cefnogi ceisiadau ffurfiol am gyllid allanol (Sylwch fod yr offeryn yn gyson â'r Model Pum Achos Busnes a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru – gweler Atodiad 6).
- Tracio a monitro prosiectau'n flynyddol.


Mae'r offeryn presennol y cyfeirir ato uchod, wedi'i gynnwys isod er gwybodaeth.



# Adran 5: Llywodraethu a Chyflawni'r Rhaglen

## 5.1 Strwythur Llywodraethu a'r Broses Flaenoriaethu

Mae'r diagram canlynol yn manylu ar strwythur llywodraethu cyfalaf Gorllewin Cymru a'r broses flaenoriaethu ar gyfer ceisiadau Llywodraeth Cymru a chytundeb ar arian cyfatebol. Pennir manylion y broses yn Atodiad 7.




Mae'r broses flaenoriaethu yn rhan allweddol o strwythur llywodraethu Cyfalaf Gorllewin Cymru. Mae'r PDP yn nodi ymhellach y strwythur gan ehangu ar gylch gwaith grwpiau allweddol, yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau unigolion.

## 5.2 Cytundeb Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru 2023.

Er mwyn cefnogi gwell cydweithio ar draws y rhanbarth wrth ddatblygu a chyflawni Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd, mae WWSCB wedi sefydlu Cytundeb sy'n disgrifio ffyrdd cytunedig o weithio. Nid yw'r Cytundeb yn gytundeb cyfreithiol rwymol ynddo'i hun, ond yn hytrach mae'n is-adran o Gytundeb Ysgrifenedig Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru y mae pob parti wedi'i lofnodi. Mae rhannau gwahanol y Cytundeb fel a ganlyn:

- Gweithio'n Rhanbarthol
- Blaenoriaethau ac Aliniad
- Blaenoriaethu Cynlluniau
- Adolygu Cynlluniau
- Egwyddorion Dylunio

Mae copi llawn o Gytundeb Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru i'w weld yn Atodiad 1.

## 5.3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol

Yn allweddol i lwyddiant y rhaglen gyfalaf ranbarthol fydd ymgysylltu'n llwyddiannus â rhanddeiliaid allweddol yn aml. Dylid ystyried y dull o ddatblygu datblygiadau cyfalaf yn rhanbarthol drwy lens rheoli newid yn llwyddiannus. Mae'n bwysig felly bod camau cynnar y rhaglen yn ymgysylltu â chynulleidfa eang, yn creu rhywfaint o fomentwm ac yn dangos llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd. Yn benodol, ynghylch datblygiadau mewn prosesau newydd i gyflymu cynlluniau.

Mae Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru yn bwrw ymlaen â sawl menter i wella ei weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ail-ddylunio gwefan Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru
- Cynllun cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau cyfathrebu newydd
- Newidiadau i'r ffordd mae cynrychiolwyr dinasyddion yn cymryd rhan mewn rhaglenni gwaith allweddol.

Bydd y pwynt olaf yn bwysig er mwyn sicrhau bod llais y dinesydd yn amlwg, ar lefel rhaglen a lle gall sefydliadau partner gynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn llwyddiannus wrth gynllunio a chyflawni prosiectau.

Unwaith eto, bydd y PDP yn cynnwys pwyslais ar gyfathrebu ac ymgysylltu ac yn defnyddio'r gallu a'r capasiti o fewn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

## 5.4 Trefniadau darparu

Gan gydnabod y capasiti cynyddol sydd ei angen i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer strategaeth gyfalaf 10 mlynedd, cefnogodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i Grŵp Gweithredol Integredig greu Swyddfa Rheoli Rhaglenni Cyfalaf Rhanbarthol (PMO) o fewn Tîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y tîm yn cael cymorth gan y tîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ehangach lle bo angen, sy'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon, ynghyd â dull integredig o gyflawni blaenoriaethau a dyletswyddau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Cyfalaf Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn cynnwys:

- Rheolwr Rhaglen Gyfalaf (1 cyfwerth ag amser cyflawn)
- Tri Arweinydd Prosiect Cyfalaf. (2.6 Cyfwerth ag amser cyflawn)

## 5.5. Rheoli Buddion

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau cyfalaf yn llwyddiannus ar draws y rhanbarth, bydd y themâu rhanbarthol canlynol a'r amcanion rhanbarthol cysylltiedig yn cael eu holrhain a'u gwerthuso gan y WWSCB bob blwyddyn o leiaf i gefnogi addasiadau prosiect, cychwyn prosiectau neu gau prosiectau. Mae'r dull hwn yn gyson â Chanllawiau IRCF 2022 (mesur llwyddiant)

Bydd y dull rhanbarthol hwn yn cyd-fynd â'r 15 dangosydd cenedlaethol a nodir yn Fframwaith Canlyniadau RIF (disgrifir y fersiwn ddiweddaraf yng Nghanllawiau RIF 2022) ac ystyriaeth o'r I Statements *Think Local Act Personal.*

Mae'r amcanion rhanbarthol wedi'u grwpio gan WWSCB o dan y themâu rhanbarthol canlynol - sydd hefyd yn cyd-fynd â themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Ffyrdd o Weithio - Integreiddio a Hirdymor**

- Gweledigaeth gytûn ar draws y rhanbarth a dull integredig ar draws rhaglenni a systemau ehangach.
- Rhaid cael mewnbwn rheoli gweithredol ar gyfer prosiectau cyfalaf a bod yn glir ar gostau gweithredol.
- Yn glir beth yw gwasanaeth rhanbarthol neu leol, a threfniadau gwneud penderfyniadau clir.
- Cyd-fynd ag anghenion poblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a chefnogaeth gan ymchwil.
- Cymryd ymagwedd hirdymor – cydbwyso anghenion tymor byr â'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir.

**Canlyniadau i unigolion a chymunedau lleol**

- Atal dirywiad, hyrwyddo annibyniaeth.
- Pwyslais ar gael perthnasoedd da ac ystyrlon.
- Annibyniaeth i boblogaethau am fwy o amser.

**Cyfranogiad a Chydweithio**

- Tynnu'r 3ydd sector a sefydliadau eraill i mewn.
- Dod â datblygwyr preifat i mewn i gefnogi angen sydd heb ei ddiwallu.
- Cael pob partner i brynu i mewn gan gynnwys tai, addysg, gwasanaethau hamdden ac ati.

**Adeiladau a Chynaliadwyedd**

- Amgylcheddau gwell i bobl leol a chymunedau.
- Mynediad i asedau cefnogol gan bobl mewn cymunedau.
- Adeiladau'n cefnogi ansawdd gofal.
- Technoleg wedi'i chynnwys mewn cynlluniau a chartrefi.
- Tai / adeiladau o ansawdd da yn allweddol i gyflawni targedau sero net ac iechyd da.
- Mwyhau'r defnydd o asedau presennol.

**Modelau Cyflawni Gwasanaeth**

- Lleihau lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Wedi'i dargedu at rai agored i niwed - cynnig atebion llety hyblyg.
- Cyfrannu at symud pobl allan o'r ysbyty neu atal derbyn i'r ysbyty.
- Gofal yn nes at y cartref - gofal lliniarol, cynlluniau gofal ychwanegol ac ati.
- Cyflwyno Hybiau Integredig / Canolfannau Gofal (sy'n gysylltiedig ag egwyddor "dim drws anghywir").
- Ymagwedd ranbarthol at ofal cymhleth.

**Atal**

- Hyrwyddo agenda atal (o'r blynyddoedd cynnar, teuluoedd i oedolion a phobl hŷn).
- Lleihau'r ddibyniaeth ar y gweithlu a refeniw: Cyflawni arbedion refeniw.
- Pontio'r cenedlaethau a llesiant gydol oes.
- Yn deg, yn hygyrch ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth.
- Y lle cywir, yr amser cywir i ddiwallu anghenion cynyddol y boblogaeth.
- Cefnogi sefydlogrwydd y farchnad.

Bydd y PDP yn cynnwys adran ar reoli buddion i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r ymagwedd at adrodd canlyniadau ehangach o fewn Fframwaith Canlyniadau RIF.

## 5.6 Risgiau a lliniaru allweddol

Nododd dadansoddiad cynnar gan y WWSCB y risgiau allweddol canlynol i gyflawni a datblygu'r Strategaeth Gyfalaf 10 mlynedd yn llwyddiannus. Bydd y risgiau hyn yn amodol ar fireinio a goruchwylio pellach yn ystod cyfnod blaenoriaethu prosiectau cyfalaf y cynllun.

- Diffyg ymgysylltu â darparwyr tai / gofal annibynnol.
- Diffyg ymrwymiad gan fuddsoddwyr / datblygwyr annibynnol.
- Gwrthdaro buddiannau rhwng partneriaid.
- Diffyg gallu mewnol i gyflawni'r rhaglen.
- Costau'r agenda carbon sero a ffosffadau.
- Prinder gweithlu i redeg gwasanaethau newydd.

Bydd y rhaglen yn rheoli cofnod RAID (Risgiau, Gweithredoedd, Materion a Phenderfyniadau) mewn amser real fel bod gwelededd clir ar draws pob lefel o lywodraethu o fewn y rhaglen.

# Atodiad 1: Cytundeb Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru 2023

**Cytundeb Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru 2023.**

| Gweithio'n Rhanbarthol |
|---|
| • Bydd y rhan fwyaf o'r holl gynlluniau cyfalaf yn cael eu cyflwyno'n lleol, ond yn bwysicach byth, yn rhannau hanfodol o raglen ranbarthol. Mae amodau lleol (demograffeg, daearyddiaeth, nodweddion economaidd-gymdeithasol ac ati) a bwriad strategol fel y nodir mewn dogfennau perthnasol gan gynnwys Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru, Cynllun Ardal a Chynllun Tymor Canolig Integredig yn benderfynyddion allweddol ar gyfer blaenoriaethu rhanbarthol a darparu rhaglenni a chynlluniau cyfalaf yn ystyrlon.<br>• Dros gyfnod 10 mlynedd y Strategaeth, dylai dosbarthiad daearyddol dyraniadau cyfalaf a chynlluniau gyd-fynd yn fras â phoblogaethau sirol, ond bydd hyn dros oes gyfan y strategaeth, yn hytrach na dyraniadau canrannol blynyddol i bartneriaid.<br>• Bydd trefniadau llywodraethu'n cydnabod yr angen i gael cymeradwyaeth sefydliadol unigol yn ogystal â chymeradwyaeth rhanbarthol. |

| Blaenoriaethau ac Aliniad |
|---|
| • Bydd pob cynllun cyfalaf yn cael ei nodi a'i alinio'n glir â blaenoriaethau cytunedig Cynllun Ardal 2023-28 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Mae hyn er mwyn cefnogi dulliau refeniw a chyfalaf ategol cydgysylltiedig.<br>• Bydd alinio cynlluniau cyfalaf hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ehangach ond cysylltiedig y tu hwnt i gwmpas iechyd a gofal - er enghraifft adfywio economaidd, blaenoriaethau cysylltedd digidol. |

| Blaenoriaethu Cynlluniau |
|---|
| • Bydd gan bob cynllun cyfalaf Noddwr Prosiect, sy'n aelod o'r Grŵp Gweithredol Integreiddio (IEG).<br>• Bydd pob cynllun cyfalaf yn destun proses flaenoriaethu gan ddefnyddio Offeryn Blaenoriaethu Gorllewin Cymru.<br>• Bydd Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru yn goruchwylio'r broses flaenoriaethu. |

| Adolygu Cynlluniau |
|---|
| • Bydd pob cynllun cyfalaf yn cael ei adolygu'n flynyddol i roi gwybod am gynnydd a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol. |

- Bydd y Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd yn cael ei adolygu ochr yn ochr ag adolygiadau o Gynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.
- Bydd pob adolygiad yn defnyddio Offeryn Blaenoriaethu Gorllewin Cymru i sicrhau cysondeb a thryloywder o ran ymagwedd.

| **Egwyddorion Dylunio** |
|---|
| Datblygir yr holl gynlluniau cyfalaf yn unol â'r egwyddorion dylunio cytunedig canlynol.<br><br>• Ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid gan gynnwys darparwyr gofal y sector annibynnol a'r trydydd sector, a phartneriaid tai.<br>• Wedi'i gynhyrchu gyda phobl â phrofiad byw o ofal a'u gofalwyr.<br>• Yn cefnogi sefydlogrwydd y farchnad.<br>• Yn cefnogi digonolrwydd y farchnad o ran diwallu anghenion cynyddol.<br>• Lleihau dibyniaeth ar y gweithlu a refeniw.<br>• Cynyddu potensial tai i wella iechyd a llesiant.<br>• Pontio'r Cenedlaethau.<br>• Yn deg ac yn hygyrch.<br>• Y lle cywir, yr amser cywir.<br>• Yn dangos cynaliadwyedd a chyfraniad i sero carbon net.<br>• Defnyddio arloesi digidol.<br>• Mae cynlluniau'n fforddiadwy ac yn gyflawnadwy. |

## Atodiad 2: Cysylltiadau â'r chwe model gofal cenedlaethol

**Rhaglen 1 Gofal yn y gymuned – cydlynu atal a chymuned**

Bydd y rhaglen atal hon yn helpu i feithrin gwydnwch pobl a chymunedau, gan gymedroli'r galw am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol acíwt, a thrwy hynny sicrhau gellir diwallu anghenion mwy cymhleth pan fyddant yn codi. Mae cyllid IRCF a HCF Amcan 2 yn cefnogi hyn trwy ddatblygu hybiau cymunedol a buddsoddi mewn asedau cymunedol.

**Rhaglen 2**: **Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn agosach i gartref.**

Nod y rhaglen hon yw sicrhau'r adferiad gorau posibl yn dilyn cyfnod o salwch neu ddigwyddiadau bywyd eraill a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal hirdymor, lleihau derbyniadau i ysbytai, a dibyniaeth ar ofal hirdymor. Bydd hyn yn cefnogi ein gofal a'n cymorth integredig cydgysylltiedig yn y cartref ar gyfer unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth mwy cymhleth. Mae cyllid HCF Amcan 1 yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyllid SHG ac HRA i ddatblygu ystod o lety arbenigol a ddatblygwyd mewn ymateb i anghenion gofal a chymorth.

**Nodyn** Rhaglen 2: Rhaglen Gofal Cymhleth yn Agosach i Gartref a Rhaglen 5: Bydd Gartref o'r Ysbyty yn cyd-fynd yn agos ac yn cael ei ddatblygu gyda'r Fframwaith Gofal Brys ac Argyfwng: 6 nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng: Llawlyfr Polisi ar gyfer 2021 i 2026. Mae hyn er mwyn cefnogi datblygiad systemau cydlynol, osgoi dyblygu lle bynnag y bo modd a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

**Rhaglen 3**: **Hyrwyddo Iechyd Emosiynol a Llesiant da.**

Nod y rhaglen hon yw ategu, nid disodli, buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau iechyd meddwl acíwt gan gynnwys y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu Hiechyd Emosiynol a'u Llesiant eu hunain. Bydd yn caniatáu i sefydliadau gefnogi unigolion ar draws yr holl grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth sydd ag anghenion Iechyd Emosiynol a Llesiant gan gynnwys plant a phobl ifanc, sy'n cyd-fynd â chyllid Amcan 1 HCF ar gyfer llety arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth pobl ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

**Rhaglen 4 Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal.**

Yn unol â'r egwyddor o atal ac ymyrryd yn gynnar, bydd y rhaglen hon yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac i atal yr angen i blant fod yn rhai sy'n derbyn gofal. Bydd y rhaglen hon yn ategu swyddogaethau statudol sefydliadau partner. Mae cyllid HCF Amcan 2 yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu amrywiaeth o Lety Diogel i ddarparu cefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc a rhieni ag anghenion ychwanegol.

**Rhaglen 5 Gartref o'r Ysbyty.**

Bydd y rhaglen hon yn ein galluogi i ddatblygu ac adeiladu ar fodelau gofal i gefnogi cynllunio a darparu a gweithredu fframwaith D2RA Gartref o'r Ysbyty. Mae hyn yn cyfeirio at y gofal a'r cymorth a gynigir i gleifion wrth adael yr ysbyty ar gyfer adferiad parhaus ac yna asesu gyda'r nod o gyfyngu ar amser diangen mewn lleoliad ysbyty a gwella canlyniadau. Mae cyllid Amcan 1 HCF yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyllid SHG ac HRA i ddatblygu ystod o lety arbenigol a ddatblygwyd mewn ymateb i anghenion gofal a chymorth.

**Nodyn** Rhaglen 5: Rhaglen Gartref o'r Ysbyty a Rhaglen 2: Bydd Gofal Cymhleth yn Agosach i Gartref yn cyd-fynd yn agos ac yn cael ei ddatblygu gyda'r Fframwaith Gofal Brys ac Argyfwng: 6 nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng: llawlyfr polisi ar gyfer 2021 i 2026. Mae hyn er mwyn cefnogi datblygiad systemau cydlynol, osgoi dyblygu lle bynnag y bo modd a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

**Rhaglen 6 Atebion seiliedig ar lety.**

Mae datblygu llety a all gefnogi pobl i fyw'n annibynnol a diwallu eu hanghenion gofal a chymorth yn rhan bwysig o'n system iechyd a gofal. Yng Ngorllewin Cymru, bydd ein rhaglen yn alinio atebion refeniw a chyfalaf i:

- Datblygu llety a all gefnogi pobl i fyw'n annibynnol.
- Sicrhau y diwellir anghenion llety ein grwpiau blaenoriaeth, yn y gymuned ac mewn lleoliadau â chymorth.
- Sicrhau bod pobl yn cymryd rhan weithredol wrth ddatblygu opsiynau llety a chael cyfle i ddewis ble maent yn byw.
- Cysylltu datrysiadau llety â chyfleoedd cyllido cyfalaf presennol a newydd.

## Atodiad 3: Dadansoddiad SWOT


Fel man cychwyn, cynhaliodd Bwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru ddadansoddiad SWOT yn ei weithdy cyntaf ym mis Tachwedd 2022 o ran nodi a chytuno ar ffactorau sy'n pennu neu o bosibl yn dylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'n llwyddiannus Gynllun Cyfalaf 10 Mlynedd ar gyfer y rhanbarth.

| Cryfderau (Mewnol) | Gwendidau (Mewnol) |
|---|---|
| • Arweinyddiaeth gadarn<br>• Perthnasoedd gwaith da ac aeddfed<br>• Uchelgais i wella a darparu gwell gwasanaethau<br>• 3ydd sector cryf<br>• Parodrwydd i newid / Ymddiriedaeth a'r gallu i newid<br>• Cyllid o sawl ffynhonnell<br>• Cysylltiadau da rhwng yr ALl a phartneriaid ehangach (addysg, adfywio, tai, Awdurdod Porthladd, Cydweithfa Canolbarth Cymru ac ati)<br>• Enghreifftiau o arfer gorau / Cysylltiadau â dulliau a arweinir gan brifysgol ac ymchwil<br>• Lleoliad naturiol / hardd<br>• Nifer fawr o asedau tir ac eiddo<br>• Gwybodaeth dda am anghenion ac adnoddau lleol. | • Mae'r capasiti yn her ar draws y rhanbarth ac yn lleol<br>• Mae angen i'r ymagwedd fod yn fwy rhagweithiol nag adweithiol<br>• Rhanbarthol vs Sirol - blaenoriaethau ac agendâu sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd<br>• Diffyg eglurder ar gyfer blaenoriaethu<br>• Amserlenni hirfaith ar gyfer gwneud penderfyniadau - (llywodraethu mewnol Awdurdod Lleol/Bwrdd Iechyd yn ychwanegol at y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru)<br>• Modelau gwahanol ar draws y rhanbarth<br>• Arbedion maint a gwledigrwydd.<br>• Angen tryloywder wrth adrodd, mesuriad gwerthuso / canlyniadau cytunedig a beth yw da |

| | |
|---|---|
| | • Angen meithrin a gwella perthnasoedd ac ymgysylltu â chymunedau<br>• Diffyg stoc gyfalaf e.e. tai priodol i'r rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth. |
| **Cyfleoedd (Allanol)** | **Bygythiadau (Allanol)** |
| • Gwella gwaith a chynllunio integredig; cyllidebau cyfunol, uwchsgilio'r gweithlu a chreu rolau newydd<br>Cael mynediad i ffynonellau cyllid gwahanol<br>• Dim drws anghywir / cyfeirio; dewis i bobl<br>• Datblygu asedau hyblyg, amlddefnydd ac ystwyth sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddiwallu anghenion y dyfodol; adolygu asedau cyfredol.<br>• Manteisio ar gyfleoedd fel adfywio canol y dref; llety i staff (recriwtio a chadw): cyfleoedd teithio llesol.<br>• Manteisio i'r eithaf ar asedau<br>• Cyflawni alinio strategol; prosiectau sy'n sicrhau effaith yn hytrach na "scatter-gun"<br>• Canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau unigol yn hytrach na gofynion sefydliadol. | • Agenda Llywodraeth gymhleth - amodau grant, meini prawf, ac amserlenni – *"ddim yn gallu ariannu popeth ym mhobman"*<br>• Sefyllfa gyllidebol heriol (lleol a chenedlaethol / refeniw a chyfalaf).<br>• Capasiti cyflawni allanol heriol; diffyg capasiti ac argaeledd contractwr a chost gynyddol deunyddiau<br>• Ymrwymiad gan bartneriaid allanol e.e. darparwyr tai cymdeithasol.<br>• Targedau cynllunio a ffosffadau; datgarboneiddio yn ddrud<br>• Effaith cludiant a gwledigrwydd ar fynediad at wasanaethau arbenigol<br>• Arbedion maint; alinio Cynghorau Sir a Byrddau Iechyd cyfagos |

| | |
|---|---|
| • Lleihau pwysau drwy ddarparu gofal yn agosach i gartref<br>• Ymagwedd sy'n arloesi ac yn arallgyfeirio – gweithio digidol, ystwyth, lleoliadau eraill gan gynnwys symudol<br>• Ymestyn perthnasoedd y tu hwnt i bartneriaid traddodiadol - h.y. adfywio economaidd. | • Y pandemig a'r argyfwng costau byw yn cynyddu'r galw ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau a chymorth. |

# Atodiad 4: Offeryn Mapio Asedau Gorllewin Cymru (cipluniau)



## Atodiad 5: Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Buddsoddi

Mae cyfanrwydd y portffolio cyfalaf yn y tymor hwy yn sylweddol. Bydd y rhai y tu allan i flaenoriaethau uniongyrchol yn cael eu datblygu drwy'r matrics blaenoriaethu cyfalaf yn ôl yr angen.

D.S. Nid yw'r tabl isod yn dangos cynlluniau lle mae llif arian wedi'i broffilio yn 2023/2024, megis dyfarnu £2m o IRCF yn ddiweddar ar gyfer datblygiad Canolfan Les Cross Hands.

Ymhelaethir ar y tabl hwn yn y PDP wrth i flaenoriaethau pellach ddod i'r amlwg wrth i'r rhaglen ennill momentwm ac aeddfedrwydd.

| **Prosiect Rhanbarthol**<br>*Teitl*<br>*Disgrifiad Byr* | **Ffynhonnell y Cyllid**<br>*IRCF*<br>*HcF*<br>*Arall* | **Amserlenni**<br>*Byr 1-3 blynedd*<br>*Canolradd 3-5 mlynedd*<br>*Tymor Hir – 5 – 10 mlynedd* | **Partneriaid Cyflawni (Posibl)**<br>*Sefydliad(au) Arweiniol*<br>*Sefydliad(au) Partner* | **Model Gofal** |
|---|---|---|---|---|
| ***Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig – "Tranche 1"***<br><br>**Hwb Caerfyrddin (Categori D – hwb iechyd a llesiant integredig ar raddfa fawr)**<br>Y weledigaeth ar gyfer Hwb Caerfyrddin yw canolfan fodern a hygyrch yng nghanol Caerfyrddin a fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghaerfyrddin a'r ardal gyfagos ac yn sbarduno cadernid economaidd a thwf yng nghanol y dref. Bydd yn hyrwyddo gofal iechyd ataliol trwy wasanaethau integredig, sydd wedi'u cysylltu'n well mewn lleoliad o ansawdd da, gan gysylltu'n greadigol â chyfleoedd diwylliant, dysgu a hamdden. Drwy ddod â'r gwasanaethau hyn at ei gilydd mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned, mae'r Hwb<br>yn cydnabod y rôl sydd gan y celfyddydau, addysg a ffyrdd egnïol o fyw wrth gefnogi llesiant drwy gydol bywydau pobl, | <br><br>**Blaenoriaeth 1 IRCF** | <br><br>**Byr 1-3 blynedd**<br><br>Adeiladu - Gorffennaf 2023<br><br>Mynd yn fyw – Hydref 2024 | <br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin (arweinydd)**<br>- Gwasanaethau Hamdden<br>- Gwasanaeth Amgueddfeydd<br>- Canolfan Ragoriaeth<br><br>**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**<br>- Gwasanaethau Iechyd Cymunedol | <br><br>**MoC 1**<br>**MoC 3** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gan gyfrannu at ganlyniadau gwell i'r cyhoedd a'r gymuned a lleihau costau 'system-gyfan' a chynyddu gwytnwch. Bydd gan yr Hwb bresenoldeb dinesig pwysig yng Nghaerfyrddin hefyd, yn angor i brif man adwerthu'r dref. Mae hyn yn ganolog i welededd a hygyrchedd yr Hwb, a bydd hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cymysgedd gweithredol o ddefnyddiau yng nghanol y dref, gan gefnogi ei fywiogrwydd masnachol. Yn benodol, mae'r prosiect yn cynnig mannau penodol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Canolfan Gasgliadau, gweithgareddau hamdden a hwb gwasanaethau cyhoeddus a weithredir gan Gyngor Sir Caerfyrddin a lle a rennir ar gyfer defnydd cydweithredol a chymunedol. "<br><br>**Pentre Awel (Parth 1)** – **Categori D hwb iechyd a llesiant integredig ar raddfa fawr**<br>Mae Pentre Awel yn ddatblygiad nodedig a hwn fydd y datblygiad mwyaf ar un safle ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae Pentre Awel yn ddatblygiad tua £200 miliwn wedi'i leoli ar draws 86 erw o dir llwyd a bydd yn cydleoli sectorau cyhoeddus (llywodraeth leol, bwrdd iechyd), academia, preifat a gwirfoddol ac yn creu amgylchedd ar gyfer hamdden, addysg, ymchwil a datblygu, deori busnes a hybu iechyd. | **Blaenoriaeth 1 IRCF** | **Byr 1-3 blynedd**<br><br>Adeiladu - Ebrill 2023<br><br>Parth Mynd yn fyw – Hydref 1 | - Deintyddfa gymunedol<br>- Gwasanaethau Gofal Llygaid<br>- Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol<br>- Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar Integredig<br><br>**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**<br>- Canolfan Ragoriaeth<br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin (arweinydd)**<br>- Gwasanaethau Hamdden<br><br>**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**<br>- Ymchwil ac Arloesi<br>- Therapïau<br>- Gwasanaethau Cymunedol<br>**Prifysgol Abertawe** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Iechyd a Llesiant Abergwaun**<br>Mae Canolfan Iechyd a Llesiant Abergwaun wedi'i nodi fel gweithredwr cynnar o ran darparu gofal yn nes at gartref fel rhan o strategaeth Iechyd a Gofal Hywel Dda "Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach". Mae'r Cynllun Integredig ar gyfer Sir Benfro wedi nodi'r 'opsiwn gwneud y mwyaf' ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles Integredig Abergwaun fel a ganlyn (angen cwmpasu pellach):<br>- Gwasanaethau GMS<br>- Archif gymunedol ar y cyd a siop offer<br>- Clinigau cymunedol<br>- Tîm cymunedol integredig<br>- Hwb clinig cymunedol rhithwir<br>- Diagnosteg Cymunedol a POCT<br>- Fferyllfa gymunedol<br>- Rhagor o le ar gyfer defnydd ehangach gan y cyhoedd / trydydd sector / cymuned | **Blaenoriaeth 1**<br>**IRCF** | **Byr 1-3 blynedd** | - Academi Iechyd a Llesiant<br><br>**Prifysgol Caerdydd**<br>- Teach and treat<br><br>**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**<br><br>**Cyngor Sir Penfro** | **MoC 1**<br>**MoC 3** |
| ***Byw â chymorth***<br><br>**Cylch Caron (Categori C – Hwb Iechyd, Gofal a Llesiant)** | | **Byr 1-3 blynedd** | **Cyngor Sir Ceredigion** | **MoC 1** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bydd y prosiect yn darparu cyfleuster iechyd a thai newydd yn Nhregaron ac yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Meddygfa Tregaron, Fferyllfa Tregaron a Llywodraeth Cymru. Y weledigaeth yw codi, yn lle'r adeilad anaddas at y diben presennol, ganolfan bwrpasol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn integredig, ynghyd â chael tai arbenigol ar gyfer unigolion ag anghenion gofal yng nghanol cymuned wledig iawn Tregaron. | **Blaenoriaeth 1 IRCF**<br>**Blaenoriaeth 2 IRCF** | | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** | **MoC 3**<br>**MoC 6** |
| ***Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig – "Tranche 2"***<br><br>**Hwb Cymunedol Llanymddyfri (Categori C – Hwb Iechyd, Gofal a Llesiant)**<br>Mae prosiect Hwb Cymunedol Llanymddyfri yn cynnig cyfleoedd ardderchog i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ochr yn ochr â gwasanaethau trydydd sector a sefydliadau cymunedol. Mae'n canolbwyntio ar anghenion grwpiau penodol o gleientiaid, ond hefyd cyfleoedd sy'n pontio'r cenedlaethau i hyrwyddo'r hwb fel canolbwynt ar gyfer anghenion datblygu cymunedol yn Llanymddyfri a'r ardal gyfagos. Mae hyn ynghyd â chynnig pwrpasol ar gyfer cyfleoedd addysgol gwledig, gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgolion. Mae gweledigaeth gref ac awydd i'r prosiect lwyddo gyda chyfraniad sylweddol gan sefydliadau angor allweddol. Mae agosrwydd yr ysbyty a'r practis meddyg teulu presennol i'r Hwb yn cynnig cyfle unigryw i adeiladu ar seilwaith presennol i wneud y gorau o wasanaethau a mentrau yn yr ardal. | **Blaenoriaeth 1 IRCF** | **Byr 1-3 blynedd** | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (arweinydd)**<br>- Gwasanaethau GMS<br>- Ysbyty Bach Llanymddyfri (yn cynnwys gwelyau)<br>- Therapïau (adsefydlu)<br>- Triniaeth ddydd<br>- Diagnosteg<br>**Cyngor Sir Caerfyrddin**<br>- Gwasanaethau Ataliol Cymunedol | **MoC 1**<br>**MoC 3** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Gofal Integredig Aberystwyth (Categori C – Hwb Iechyd, Gofal a Llesiant)**<br>Bydd y prosiect yn darparu Canolfan Gofal Integredig (ICC) yn Aberystwyth sy'n dwyn ynghyd ystod o wasanaethau cyhoeddus o dan yr un to mewn amgylchedd sy'n cydymffurfio â safonau rheoleiddio ac sy'n addas ar gyfer darparu gofal yr unfed ganrif ar hugain, gan gyflawni cynllun 3 blynedd Ceredigion 2022-25 | **Blaenoriaeth 1 IRCF** | **Byr 1-3 blynedd** | - Adfywio Economaidd (deg tref)<br><br>**Partneriaid trydydd sector**<br>- I'w gadarnhau<br><br>**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (arweinydd)**<br>- Iechyd Meddwl Cymunedol<br>- Clinigau Cleifion Allanol<br>- Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod Cymunedol<br>- Gwasanaethau GMS<br>- Therapïau<br><br>**Cyngor Sir Ceredigion**<br>- Timau Adnoddau Cymunedol Integredig | |
| ***Ailalluogi / Camu i fyny a chamu i lawr*** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Haverfordia Hosue, Canolfan Ailalluogi a Llety** Dymchwel adeilad presennol ac adeiladu canolfan ailalluogi 12 gwely bwrpasol ynghyd ag 20 uned hunangynhwysol i bobl hŷn.<br><br>**Cyfleuster Gofal Canolraddol Fort Road, Doc Penfro**<br>Prynu a chreu diben newydd i 2 uned breswyl ger Ysbyty Cymunedol De Sir Benfro | **Blaenoriaeth 2 HCF**<br><br>**Blaenoriaeth 2 HCF** | **Byr 1-3 blynedd**<br><br>**Byr 1-3 blynedd** | **I'w chadarnhau**<br><br>**Cyngor Sir Penfro** | **MoC 5**<br><br>**MoC 5** |
| ***Byw â chymorth Anableddau Dysgu / Iechyd Meddwl***<br><br>**Heol y Brandy, Pontyberem**<br>Addasu eiddo 3 ystafell wely sydd eisoes yn y Stoc Tai i ddarparu datrysiadau llety wedi'u cynllunio'n arbennig a chefnogaeth lefel isel i gleientiaid ag ystod o Anableddau Dysgu a chyflyrau cysylltiedig.<br><br>**Byw Cymunedol â Chymorth - Teras Coleshill, Sir Gaerfyrddin**<br>Ailfodelu'r eiddo presennol i ddarparu datrysiadau llety wedi'u cynllunio'n arbennig a chefnogaeth lefel isel i gleientiaid ag ystod o Anableddau Dysgu a chyflyrau cysylltiedig.<br><br>**CAMU 'MLAEN - Hafan Y Waun Llety byw cymunedol â chymorth Anableddau Dysgu/Iechyd Meddwl; Aberystwyth**<br>Dull rhanbarthol o ddarparu llety â chymorth i'r rhai ag Anabledd Dysgu neu ddiagnosis Iechyd Meddwl.<br>Cyfleuster AD Rhanbarthol a adeiladwyd yn bwrpasol sy'n darparu 10 a 2 uned gymorth | **Blaenoriaeth 1 HCF**<br><br>**Blaenoriaeth 1 HCF**<br><br>**Blaenoriaeth 1 HCF** | **Byr 1-3 blynedd**<br><br>**Byr 1-3 blynedd**<br><br>**Byr 1-3 blynedd** | **Cyngor Sir Caerfyrddin**<br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin**<br><br>**Cyngor Sir Ceredigion** | **MoC 2**<br><br>**MoC 6**<br><br>**MoC 6** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adain Ddementia Hafan Deg a Gardd Synhwyraidd**<br>Estyniad dementia 4 gwely arloesol i gartref gofal presennol i ganiatáu symud o fewn yr un safle, mewn ymateb i daith dementia y cleient<br><br>**Tawel Fan, Llanelli, Byw â Chymorth**<br>Ailfodelu'r eiddo presennol i ddarparu datrysiadau llety wedi'u cynllunio'n arbennig a chefnogaeth lefel isel i gleientiaid ag ystod o Anableddau Dysgu a chyflyrau cysylltiedig. | **Blaenoriaeth 2 HCF**<br><br>**Blaenoriaeth 1 HCF** | **Byr 1-3 blynedd**<br><br>**Byr 1-3 blynedd** | **Cyngor Sir Ceredigion**<br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin** | **MoC 2**<br><br>**MoC 6** |
| ***Llety Mwy Diogel i Blant a Phobl Ifanc***<br>**West Lodge, Llanismel**<br>Adnewyddu eiddo Llety Diogel a brynwyd gyda chyllid ICF<br><br>**Fferm Llwynon – a elwir bellach yn Rock Farm**<br>Stoc HRA yw'r eiddo. Ffïoedd dylunio a chynllunio cyfleuster 16+, uned breswyl â 2/3 uned led-annibynnol<br><br>**Prosiect Pontio, Sir Gaerfyrddin (Glanaman) - Heol Aman**<br>Ailddatblygu eiddo presennol ar gyfer lleoliad byw â chymorth 6 pherson ar gyfer pobl ifanc 18 - 24 oed fel dewis arall yn lle gadael Sir Gaerfyrddin i fynychu coleg preswyl, y tu allan i'r sir. Mae cysylltiadau'n cael eu sefydlu gyda cholegau lleol i efelychu'r elfen addysgol, a fydd yn effeithio ar leoliad.<br><br>**Llety Diogel i Blant - Sir Gaerfyrddin - Rhyd y Gors**<br>Ailfodelu ac adnewyddu dau dŷ o'r 1970au a garejis cyfagos. 8 gwely (yn cynnwys 2 uned gysgu a swyddfa). Ailfodelu'r tai | **Blaenoriaeth 2 HCF**<br><br>**Blaenoriaeth 2 HCF**<br><br>**Blaenoriaeth 1 HCF** | **Tymor Byr 1–3 blynedd**<br><br>**Tymor Byr 1–3 blynedd**<br><br>**Tymor Byr 1–3 blynedd** | **Cyngor Sir Penfro**<br><br>**Cyngor Sir Penfro**<br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin**<br><br>**Cyngor Sir Caerfyrddin** | **MoC 4**<br><br>**MoC 6**<br><br>**MoC 6** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| presennol yn fewnol, dymchwel y garejis ac adeiladu estyniad deulawr i gysylltu'r ddau dŷ at ei gilydd i greu 1 uned breswyl fawr a thirweddu allanol cysylltiedig. | | **Tymor Byr 1–3 blynedd** | | **MoC 4** |
| **Llety diogel ar gyfer Plant - Ceredigion - Felin-fach**<br>Cefnogi plant ag anghenion cymhleth, i wella annibyniaeth, dysgu, cyflogaeth a chanlyniadau llesiant drwy gynnig cefnogaeth a llety yn agosach at deulu a ffrindiau ac osgoi'r angen am leoliadau y tu allan i'r rhanbarth.<br>Addasu eiddo 5 ystafell wely i ddarparu cartref bach ar y llawr gwaelod i hyd at 2 o blant drwy adnewyddu eiddo 3 ystafell wely<br>Addasu garej yn breswylfa i ddarparu 1 uned ynghyd â chysgu i mewn (16+ byw'n lled-annibynnol) 7-18 oed" | **Blaenoriaeth 2 HCF**<br><br>**Blaenoriaeth 2 HCF** | **Tymor Byr 1–3 blynedd** | **Cyngor Sir Ceredigion** | **MoC 4** |

# Atodiad 6: Offeryn Datblygu Achos Busnes

Mae'r Offeryn Blaenoriaethu yn gyson â Chanllawiau IRCF 2022 o ran cyd-fynd â'r Model Pum Achos a hyrwyddir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF 2018

**Table: A starting point for identifying and agreeing the critical success factors based on the Five Case Model.**

| Key Critical Success Factors | Broad Description |
|---|---|
| **Strategic fit and business needs** | How well the option:<br>☐ meets the agreed spending objectives, related business needs and service requirements, and<br>☐ provides holistic fit and synergy with other strategies, programmes and projects. |
| **Potential Value for Money** | How well the option:<br>☐ optimises public value (social, economic and environmental), in terms of the potential costs, benefits and risks. |
| **Supplier capacity and capability** | How well the option:<br>☐ matches the ability of potential suppliers to deliver the required services, and<br>☐ is likely to be attractive to the supply side. |
| **Potential affordability** | How well the option:<br>☐ can be funded from available sources of finance, and<br>☐ aligns with sourcing constraints. |
| **Potential achievability** | How well the option:<br>☐ is likely to be delivered given the organisation's ability to respond to the changes required, and<br>☐ matches the level of available skills required for successful delivery. |

## Atodiad 7: Ymagwedd Blaenoriaethu Rhaglenni a Phrosiectau Cyfalaf

| ***Cam 1: Cysyniad Amlinell a Chostau Dichonoldeb*** |
|---|
| • *Bydd pob prosiect cyfalaf posibl yn amodol ar gwblhau ffurflen Cysyniad Amlinell gan gynnwys asesu Costau Dichonoldeb*<br>• *Bydd hyn ar ffurf cyfres fer o flychau testun sy'n mynd i'r afael â'r egwyddorion sy'n sail i Weledigaeth Cyfalaf Strategol Gofal Gorllewin Cymru (gweler adran 1.1).*<br>• *Rhaid cwblhau'r holl gwestiynau ar y ffurflen Cysyniad Amlinell i gynnwys cymeradwyaeth gan uwch-noddwr.*<br>• *Bydd y ffurflenni wedi'u cwblhau'n cael eu hadolygu a'u cofnodi bob mis gan Grŵp Cyfalaf Gweithredol Gorllewin Cymru (WWOCG)*<br>• *Argymhelliad i ddatblygu syniad, gofyn am ragor o wybodaeth neu roi'r gorau i'r syniad.* |

| **Cam 2: Offeryn Datblygu Busnes** |
|---|
| • *Yr holl brosiectau cyfalaf posibl sydd i'w blaenoriaethu yn cael eu cefnogi drwy gymhwyso Offeryn Datblygu Busnes Gorllewin Cymru.*<br>• *Yr holl brosiectau cyfalaf posibl sydd i'w blaenoriaethu i gael uwch-noddwr.*<br>• *Mae'r Offeryn wedi'i gynllunio i fod yn gyson â thempledi cynigion Llywodraeth Cymru a'r Model Pum Achos Busnes.*<br>• *Pob prosiect posibl sydd i'w flaenoriaethu i gael dadansoddiad llawn seiliedig ar gost, gan gynnwys goblygiadau refeniw ac ymrwymiadau arian cyfatebol y cytunwyd arnynt a nodwyd yn yr Offeryn*<br>• *Adolygydd annibynnol o'r WWOCG neu Fwrdd Cyfalaf Strategol Gorllewin Cymru (WWSCB) i gwblhau rhannau o'r Offeryn.*<br>• *Pan fydd wedi'i werthuso gan yr Adolygydd Annibynnol, bydd taflen grynhoi gyflawn yr Offeryn yn cael ei chyflwyno'n chwarterol i'r WWSCB* |

| ***Cam 3: Adroddiad Gweithredol a Gwerthuso*** |
|---|
| • *Bydd pob Taflen Grynhoi Gyflawn ar gyfer yr Offeryn yn cael ei hadolygu gan roi sylw dyledus i'r amcanion a nodir yng Nghynllun Cyfalaf 10 mlynedd Gorllewin Cymru.*<br>• *Bydd y WWSCB yn adolygu Taflenni Crynhoi Cyflawn wedi'u cwblhau yr Offeryn bob chwarter.*<br>• *Argymhelliad i symud ymlaen neu roi'r gorau i gyflwyno'r achos busnes neu ofyn am ragor o wybodaeth.*<br>• *WWSCB i gynhyrchu adroddiad gweithredol yn manylu ar argymhellion gan gynnwys manylion trefniadau arian cyfatebol a nodi risgiau a mesurau lliniaru.*<br>• *Adroddiad gweithredol i'w gyflwyno i Grŵp Gweithredol Integredig Gorllewin Cymru (IEG) bob chwarter.* |

| ***Cam 4: Cadarnhau*** |
|---|

- *IEG i adolygu prosiectau cyfalaf arfaethedig bob chwarter.*
- *Argymhelliad i symud ymlaen neu roi'r gorau i gyflwyno'r achos busnes neu ofyn am ragor o wybodaeth - yn amodol ar unrhyw argymhellion neu bwyntiau eglurder sy'n codi o drefniadau cymeradwyo llywodraethu mewnol partneriaid unigol (gweler y Cytundeb).*
- *IEG i grynhoi argymhellion mewn adroddiad i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (RPB)*

| ***Cam 5: Penderfyniad a Chyflwyno Cais*** |
| --- |
| • *Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adolygu'r gwerthusiad o brosiectau cyfalaf arfaethedig a gwneud y penderfyniad terfynol i gyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru a chytuno ar drefniadau arian cyfatebol.*<br>• *Noddwr Prosiect i gwblhau a chydlynu cyflwyniadau cais ffurfiol* |

| ***Cam 6: Monitro*** |
| --- |
| • *WWSCB i gwrdd bob 6 mis i adolygu cynnydd a monitro'r gyllideb / cyflawni canlyniadau datganedig o geisiadau a gyflwynwyd a phrosiectau cyfalaf a flaenoriaethwyd.*<br>• *Adroddiadau eithrio i'w cyflwyno i IEG i'w hadolygu a'u gweithredu.*<br>• *Cyhoeddi Adolygiad Blynyddol.* |

## Atodiad 8: Portffolio Prosiectau Cyfalaf

*Adran i'w chwblhau pan gytunir ar gynlluniau buddsoddi rhanbarthol 23-24.*